

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**

External Affairs and Additional Legislation Committee

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd,

Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

5 Chwefror 2018

Annwyl Dai,

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**


Heddiw, fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad, 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' a hynny'n dilyn ei ymchwiliad i **Wytnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit.**

Mae adran 3 o'r adroddiad yn ymwneud â pharodrwydd gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw'n benodol at adran 3.2 sy'n ymwneud â newidiadau i'r rheolau mewnfudo ac adran 3.4 sy'n ymwneud â'r goblygiadau o ran iechyd gan y gallant fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Wrth baratoi'r adroddiad hefyd, ystyriwyd **trafodaethau rapporteur** â staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rwy'n tynnu'ch sylw at yr uchod yn y gobaith y bydd o gymorth ichi yn y dyfodol pan fyddwch yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r portffolio iechyd.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, cofiwch gysylltu.

Yn gywir



**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

